

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Prys Jones

Is Bwyllgor Cyllid 30/9/19

Presennol: Alwyn M Roberts (yn cadeirio), Alwyn E Jones, Huw Antur, LP, BE

Ymddiheuriadau: Dewi Jones

1. Nodwyd cynnwys Cofnodion Hydref 2018 ac Ebrill 2019
 2. Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad BDO Materion yn Codi sydd yn tynnu sylw fod bron i £26,000 mewn llaw.
 3. Adolygwyd y sefyllfa parthed cynlluniau gwario yn unol â'r Gyllideb fel a ganlyn
 - i. **Maes Parcio Tŷ'n Ddol** - prosiect arfaethedig ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd ydyw hwn; mae Cynghorydd Gwynedd yn parhau i ddisgwyl y cynlluniau gan y penseiri. Rhagwelir bydd angen gwneud cais am grant i wireddu'r prosiect ac nad yw'n debygol y bydd gwario ar hwn yn y dyfodol agos.
 - Cytunwyd i holi'r Cynghorydd am y sefyllfa bresennol o ran Cyngor Gwynedd.
 - ii. **Paneli gwybodaeth** - bu oedi yn y gwariant oherwydd oedi wrth dderbyn caniatâd cynllunio oddi wrth Barc Cenedlaethol Eryri ond mae'r gwaith ar fin cael ei gwblhau. Ar ôl derbyn y grant, rhag-amcennir mai £2,500 ar y mwyaf fydd y gost i'r Cyngor.
 - iii. **Uwchraddio'r Toiledau** – mae'r bwriad hwn wedi bod ar y gweill ers peth amser oherwydd yr angen i gael 3 dyfynbris a'r ymdrechion i gael grantiau. Erbyn hyn mae'r prisiau wedi dod i law ond barn y Cyngor yw eu bod yn rhy gostus oni bai bod grant ar gael. Nid oes grant ar gael i ymgeisio amdano tan y flwyddyn ariannol newydd.
 - Cytunwyd ei bod yn parhau yn fwriad i wella'r toiledau - ond o fewn allu gwariant y Cyngor.
 - iv. **Gwelliannau i'r fynwent** – mae trafodaethau ers amser maith. Gofynnwyd i Swyddog y Fynwent ofyn am bris gan gwmni cymwysedig i ddod i law o fewn y 3 wythnos nesaf.
 - Cytunwyd mai prosiect dros nifer o flynyddoedd y bydd hwn ac mai o gyfrif y fynwent y daw'r arian amdano. Bydd hyn yn dibynnu ar faint o arian a ddaw i gyfrif y fynwent ac nid ydyw hyn yn fater y gellid ei ragweld.
 - Cytunwyd i ofyn am farn Un Llais Cymru am y sefyllfa gyfreithiol parthed creu mynwent lawnt; yn y cyfamser bydd y Clerc yn rhannu arweiniad Un Llais Cymru ar fynwentydd i bob aelod o'r Cyngor.
- Cytunwyd fod y Cyngor yn gweithredu'n gyfrifol gydag arian cyhoeddus a bod cynlluniau i wario ar brosiectau pendant wedi eu hamlygu yn y Gyllideb ar hyd y blynyddoedd.
4. Rhoddwyd ystyriaeth i gynllun cymunedol ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd i gael llain amlbwrpas at ddefnydd y gymuned a'r ysgol. Y cyfraniad o ran y Cyngor byddai £5000 gyda chost cynnal a chadw o £200 y flwyddyn.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Prys Jones

- i. Cytunwyd fod hwn yn brosiect ar gyfer lles y gymuned gyfan
- ii. Cytunwyd i argymhell bod y Cyngor Cymuned yn ei gefnogi i'w roi yng Nghyllideb 2020-21 o dan yr Hawl Iechyd a Lles y Gymuned
5. Cytunwyd fod y gwariant arferol yn cyd-fynd â'r hyn a roddwyd yn y Gyllideb
6. Cynllun Gwella yn dilyn Adroddiad BDO:
 - i. Adolygu cynnydd ein prosiectau'n barhaus
 - ii. Gosod rhai o'r neilltu os na ddaw grant /arian cyfatebol /cynlluniau oddi wrth ein partneriaid (megis Parcio Tyn Ddol; uwchraddiad mwy syml i'r toiledau)
 - iii. Ymateb i ddymuniad y gymuned am gefnogaeth i brosiect mwy hyfyw
7. Cytunwyd ein bod yn parhau i ddilyn argymhellion NALC ar gyfer Cyflogau; mae'r Swyddog Ariannol wedi gwirio hyn gyda Mantell Gwynedd sy'n gweithredu'r cyflogau dros y Cyngor.
8. Arwyddwyd ffurflen BDO i hysbysu fod y Cyfrifon ar gael i'w harchwilio gan aelodau'r cyhoedd.
9. Cytunodd Alwyn E Jones i gyflwyno adroddiad o'r is-bwyllgor i'r Cyngor ar 1/10/19

Cyfarfod nesaf o'r is-bwyllgor: 3/12/19 am 6.30pm

Agenda 3/12/19:

1. Cofnodion Medi 30 2019
2. Monitro Gwariant yn erbyn y Gyllideb
3. Monitro cynnydd yng nghynlluniau gwariant arbennig 2019-20
4. Adolygu'r Rheoliadau Ariannol
5. Adolygu'r asesiad o risgiau ariannol
6. Adolygu'r Yswiriant (wedi ei wneud)
7. Gosod y Gyllideb ar gyfer 2020-21
8. Argymhell lefel y Praesept i gyfarfod y Cyngor yn Ionawr 2021